



**CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL**

DYLAN J. WILLIAMS BA (Hons), MSc, MA, M.R.T.P.I.
Pennaeth Gwasanaeth – Rheoleiddio a Datblygu Economaidd
Head of Service – Regulation and Economic Development

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Canolfan Fusnes Môn • Anglesey Business Centre
Parc Busnes Bryn Cefni • Bryn Cefni Business Park
LLANGFNI
Ynys Môn • Isle of Anglesey
LL77 7XA

ffôn / tel: (01248) 752499
ffacs / fax: (01248) 752192

Gofynnwch am / Please ask for: Dylan Williams
E-bost / Email: DylanWilliams@ynysmon.gov.uk
Ein Cyf / Our Ref:
Eich Cyf / Your Ref:

Dyddiad / Date: 12/10/18

Ms. Kay Sully,
Rheolwr Achos,
Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol,
Yr Arolygaeth Cynllunio,
Temple Quay House,
2 The Square
Bryste,
BS1 6PN

Annwyl Ms Sully,

EN010007

**Deddf Cynllunio 2008 (fel y'i diwygiwyd) - Adran 88 a Rheolau Cynllunio Seilwaith
(Trefniadau Archwilio) 2010 (fel y'u diwygiwyd)**

Cais gan Pŵer Niwclear Horizon am Orchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO) ar gyfer Gorsaf Bŵer
Niwclear Wylfa Newydd

HYSBYSIAD YNGHYLCH BOD YN BRESENNOL A'R BWRIAD I GYMRYD RHAN YN Y CYFARFOD RHAGARWEINIOL A'R GWRANDAWIADAU

Mewn ymateb i'r llythyr rheol 6, dyddiedig 25 Medi 2018, mae Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM), drwy
hyn yn hysbysu bod y Cyngor yn dymuno bob yn bresennol a chymryd rhan yn:

- Y Cyfarfod Rhagarweiniol ar 23 Hydref 2018; ac yn
- Y Gwrandawriad Mater Penodol ar y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu drafft ar 24 Hydref
2018.

Mae CSYM hefyd yn hysbysu y bydd yn bresennol yn y gwrandawriad llawr agored ar 25 Hydref
2018, ond nad yw'n bwriadu siarad oni bai y bydd ymholiad y gallwn ymateb yn fuddiol iddo i
gynorthwyo'r Awdurdod Archwilio.

1 CYFARFOD RHAGARWEINIOL AR 23 HYDREF 2018

Bydd Martin Kingston QC yn cynrychioli CSYM yn y cyfarfod Rhagarweiniol. Bydd Dr Gwynne
Jones, Prif Weithredwr y Cyngor; Mr Dylan Williams, Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd
y Cyngor; a'n cynghorwyr cyfreithiol o Burges Salmon LLP yn bresennol yn y cyfarfod gyda Mr
Kingston. Bydd swyddogion eraill CSYM yn bresennol er mwyn arsylwi.

Mae CSYM yn dymuno cymryd rhan ym mhob un o'r eitemau ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod
rhagarweiniol, gan godi'r materion canlynol yn benodol;

1.1 Asesiad Cychwynnol o'r Prif Faterion (Eitem 4)

(a) Gogledd Ynys Môn

Mae CSYM yn ystyried y bydd yr holl brif faterion sydd wedi'u hamlygu yn y llythyr rheol 6 yn cael yr effaith fwyaf yn agos at y safle. Mae CSYM wedi mabwysiadu Egwyddor Agosrwydd wrth ddelio â'r DCO; mae gofyn cael dilyn dull dilyniannol ar gyfer yr egwyddor hon, gan ystyried yr effeithiau ar y cymunedau cyfagos i ddechrau. Yn ei Ganllawiau Cynllunio Atodol Wylfa Newydd (Mai 2018), mae CSYM hefyd yn cydnabod pwysigrwydd ystyried effeithiau ar Ogledd Ynys Môn. Mae'r canllawiau'n nodi'r 'Egwyddorion Datblygu Allweddol' ar gyfer yr ardal leol hon, sef yr ardal y bydd y datblygiad yn effeithio arni fwyaf. Barn CSYM yw y dylid caniatáu amser i ystyried yr effeithiau a'r materion y mae Gogledd Ynys Môn a'i chymunedau'n poeni amdanynt fwyaf, yn ofalus ac ar wahân.

(b) Elfennau economaidd-gymdeithasol

Er bod CSYM yn croesawu cynnwys y pwnc elfennau economaidd-gymdeithasol fel prif fater, mae'r Cyngor yn pryderu bod y grŵp hwn yn cynnwys nifer o'r materion pwysicaf y mae'r cais yn eu codi, gan gynnwys y rhai hynny sy'n debygol o gael effeithiau pellgyrhaeddol a hirhoedlog ar gymunedau Ynys Môn. Mae CSYM yn credu bod pob un o'r pwyntiau sydd wedi'u nodi o dan y mater hwn yn faterion allweddol, ac mae'n nodi ei fod yn bwriadu cyflwyno sylwadau helaeth ynghylch pob un o'r rhain. Dymuna CSYM dynnu sylw at y ffaith ei fod yn credu bod pob un o'r pynciau economaidd-gymdeithasol yn faterion pwysig, ac y bydd angen llawer mwy o amser ar gyfer y pwnc hwn yn ei gyfanrwydd na nifer o'r prif faterion eraill sydd wedi'u nodi.

(c) Etifeddiaeth

Wrth baratoi i gynnal cyfres o brosiectau mawr posib, mae CSYM wedi cydnabod y bydd ei gymunedau'n gweld effeithiau cadarnhaol a negyddol am sawl blwyddyn. Er mwyn adlewyrchu ei ymrwymiad i arwain y gymuned mewn ffordd gyfrifol a rhagweithiol, mae CSYM yn disgwyl i bob prosiect mawr arwain at etifeddiaeth gadarnhaol i Ynys Môn, ac y bydd gwaith datblygu, adeiladu a gweithredu'r prosiectau mawr hyn yn cyfrannu at lesiant hirdymor yr ynys a'i chymunedau; i'r perwyl hwn, mae CSYM wedi mabwysiadu Fframwaith Etifeddiaeth. Mae cefnogaeth CSYM i ddatblygiad Wylfa Newydd yn seiliedig ar y prosiect yn arwain at etifeddiaeth hirdymor a chadarnhaol i'r dyfodol ar gyfer yr Ynys. Ym marn CSYM, mae hyn yn sylfaenol i ba mor dderbyniol yw'r datblygiad neu beidio. Felly, mae CSYM yn credu y dylid trin etifeddiaeth y prosiect fel prif fater yn ei rinwedd ei hun.

(d) Effeithiau cronus

Mae'r prif faterion sydd i'w hystyried yn yr Archwiliad, fel sydd wedi'u nodi yn y llythyr rheol 6, wedi'u rhannu'n benawdau unigol. Mae'r llythyr rheol 6 yn cydnabod y bydd rhywfaint o orgyffwrdd. Yn amlwg, bydd yna effeithiau cronus amrywiol - rhai uniongyrchol ac anuniongyrchol - yn deillio o'r cydadwaith rhwng y themâu a'r materion y tynnwyd sylw atynt. Bydd yna effeithiau cronus gyda phrosiectau eraill hefyd, yn arbennig cais y National Grid am DCO ar gyfer Cysylltiad Gogledd Cymru. Nid yw'r Cyngor yn glir ynghylch ble mae'r materion cronus hyn yn cael eu hystyried ar hyn o bryd, ac mae'n gofyn am ychwanegu effeithiau cronus prosiect Wylfa Newydd, a hynny rhwng y gwahanol bynciau a phrosiectau eraill, fel prif fater.

1.2 Amserlen ddrafft ar gyfer archwilio'r cais: Sylwadau ysgrifenedig (Eitem 5)

Mae'r ymgeisydd wedi nodi yn y map lliniaru a gyflwynwyd, y bydd angen cytundeb rhwymedigaeth gynllunio adran 106. Mae'r ymgeisydd a CSYM wedi bod yn trafod penawdau telerau ar gyfer cytundeb o'r fath ers cryn amser. Gan mai CSYM yw'r awdurdod cynllunio lleol ar gyfer y datblygiad,

Croeso i chi ddelio gyda'r Cyngor yn Gymraeg neu'n Saesneg. Cewch yr un safon o wasanaeth yn y ddwy iaith.

You are welcome to deal with the Council in Welsh or English. You will receive the same standard of service in both languages.

mae'n gyfrifol yn gyfreithiol am gytuno i'r Cytundeb Adran 106 a'i lofnodi. Bydd hefyd yn gyfrifol am waith monitro a gorfodi ei ddarpariaethau yn dilyn hynny, yn ogystal ag am ofynion y DCO. Mae Nodyn Cyngor 2 yr Arolygiaeth Gynllunio (Rôl Awdurdodau Lleol yn y Broses Caniatâd Datblygu) yn nodi "mae prif agwedd ar fewnbwn awdurdod lleol yn yr archwiliad yn debygol o ganolbwytio ar sicrhau bod darpariaethau/gofynion y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft ac unrhyw gytundeb a106 (os yw'n ofynnol) yn gyflawnadwy ac yn gyson". Nid yw'r amserlen a gyhoeddwyd yn y llythyr rheol 6 yn cynnwys unrhyw ddyddiadau cau ar gyfer cyflwyno dogfennau adran 106 ar hyn o bryd. Mae CSYM yn gofyn am ychwanegu dyddiadau cau ar gyfer bwrw ymlaen â chytundeb adran 106 a'i gwblhau, at yr amserlen.

1.3 Amserlen ddrafft ar gyfer archwilio'r cais (Eitem 6)

(a) Dyddiadau gwrandawiadau mis lonawr

Mae CSYM yn bryderus nad yw'r amserlen ar gyfer y gwrandawiadau yn ystod ail wythnos mis lonawr yn caniatáu digon o amser ar gyfer y tarfu anorfod a fydd dros gyfnod y Nadolig a'r flwyddyn newydd. Bydd gwyliau'r Nadolig yn cael effaith negyddol ar allu'r Cyngor i baratoi'n llawn ar gyfer y set gyntaf o wrandawiadau sydd wedi'u trefnu ym mis lonawr, a byddai'r Cyngor yn gofyn am gael symud y rhain at ddiwedd mis lonawr. Pe byddai'r Awdurdod Archwilio'n penderfynu nad oes modd newid yr amserlen hon, mae CSYM yn gofyn am gytuno ar bynciau'r gwrandawiadau hyn yn y cyfarfod rhagarweiniol a'i fod yn ystyried anfon agendâu yn gynnar ar gyfer y diwrnodau hyn.

(b) Nifer y diwrnodau o wrandawiadau

Mae CSYM yn bryderus na fydd y nifer cyfyngedig o ddiwrnodau sydd wedi'u nodi ar gyfer y gwrandawiadau yn yr amserlen Archwilio ddrafft yn ddigon. Er ei fod yn derbyn mai proses ysgrifenedig yw Archwilio'r DCO yn bennaf, nid yw deg diwrnod yn rhoi llawer o amser i ystyried y prif faterion, materion Caffael Gorfodol, drafftio'r Gorchymyn cyfreithiol yn ogystal â chynnal ymweliadau archwilio safle ar y cyd ar gyfer prosiect ar y raddfa hon.

Mae'r mater hwn yn arbennig o ddifrifol gan fod y mater economaidd-gymdeithasol yn cynnwys amrywiaeth helaeth o faterion sydd o bwys mawr i CSYM. Byddai CSYM yn croesawu'r cyfle i drafod sut bydd amser Gwrandawiadau'n cael ei rannu'n dibynnu ar y themâu a'r prif faterion sydd wedi'u nodi. Mae CSYM yn credu y dylid caniatáu digon o amser i allu ystyried y materion sy'n peri'r pryder mwyaf i'r ardal leol yn briodol ac y dylid dynodi diwrnodau eraill ar gyfer gwrandawiadau er mwyn caniatáu ar gyfer hyn.

(c) Trefn yr ymweliadau archwilio safle ar y cyd a'r gwrandawiadau

Mae CSYM yn credu y bydd ymweliadau safle'n hanfodol er mwyn i'r Awdurdod Archwilio ddeall yn llawn beth yw cyd-destun y cynigion. Felly, byddai'n gofyn i'r Awdurdod Archwilio ystyried trefnu ymweliadau archwilio safle ar y cyd mor gynnar yn y broses ag sy'n ymarferol. Er bod y Cyngor yn cydnabod na fydd y tywydd yn ddelfrydol ym mis lonawr o bosib, mae'n awgrymu y byddai cynnal yr ymweliadau safle cyn y gwrandawiadau materion penodol sydd wedi'u trefnu ym mis lonawr a mis Mawrth yn ychwanegu gwerth at y gwrandawiadau ac y dylid cynnal yr ymweliadau hyn mor gynnar â phosib felly.

1.4 Materion eraill (Eitem 9)

(a) Cymryd rhan yn ddwyieithog

Mae CSYM yn Gyngor dwyieithog, ac mae'n bwriadu cymryd rhan yn yr Archwiliad yn Gymraeg ac yn Saesneg cyn belled ag y bo modd. Mae'r Cyngor yn deall ac yn croesawu'r ymdrechion sy'n cael

Croeso i chi ddelio gyda'r Cyngor yn Gymraeg neu'n Saesneg. Cewch yr un safon o wasanaeth yn y ddwy iaith.

You are welcome to deal with the Council in Welsh or English. You will receive the same standard of service in both languages.

eu gwneud i alluogi'r cyhoedd i gymryd rhan mewn gwrandawiadau yn Gymraeg. Ond, mae'r Cyngor yn bryderus nad yw'r amserlen yn cynnwys digon o amser i gymryd rhan yn ddwyieithog ac yn benodol, nad oes amser wedi'i ganiatáu i gyfieithu'r prif sylwadau er mwyn galluogi a chefnogi pobl i gymryd rhan yn ddwyieithog.


2 GWRANDAWIAD MATER PENODOL

Bydd cynrychiolwyr yn bresennol ar ran CSYM yn y Gwrandawriad Mater Penodol ar y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu drafft ar 24 Hydref 2018. Mae yna anghytundebau sylfaenol â Phŵer Niwclear Horizon ar ddrafftio'r DCO mewn perthynas â monitro effeithiau a chyflwyno unrhyw fesurau lliniaru. Mae'r anghytundebau hyn, sydd eisoes wedi cael eu cyfathrebu i PNW, yn codi materion cyfreithiol cymhleth ac, os nad ydynt yn cael eu datrys i fodlonrwydd CSYM, maent yn debygol o arwain at broblemau sylweddol yn y dyfodol. Byddai CSYM yn bwriadu dod â thîm o ddau gynrychiolydd cyfreithiol a dau swyddog. Mae CSYM yn bwriadu penderfynu pwy fydd y rhain yn derfynol ar ôl adolygu'r agenda manwl ar gyfer y gwrandawriad hwn.

3 GWRANDAWIAD LLAWR AGORED

Bydd CSYM yn bresennol yn y Gwrandawriad Llawr Agored ar 25 Hydref 2018, ond nid yw'n bwriadu siarad. Bydd cynrychiolydd cyfreithiol a swyddog yn cynrychioli CSYM er mwyn ateb unrhyw ymholiadau lle gall y Cyngor o bosib gynorthwyo'r Panel. Ond nid yw'n gofyn am gyfle i gyflwyno sylwadau ar yr achlysur hwn.

Yn Gywir / Yours Sincerely



DYLAN J. WILLIAMS

**Pennaeth Gwasanaeth – Rheoleiddio a Datblygu Economaidd
Head of Service - Regulation and Economic Development**



**CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL**

DYLAN J. WILLIAMS BA (Hons), MSc, MA, M.R.T.P.I
Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd
Head of Service Regulation and Economic Development

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Canolfan Fusnes Môn • Anglesey Business Centre
Parc Busnes Bryn Cefni • Bryn Cefni Business Park
LLANGEFNI
Ynys Môn • Isle of Anglesey
LL77 7XA

ffôn / tel: (01248) 752431/2435
ffacs / fax: (01248) 752192

Gofynnwch am / Please ask for: Dylan Williams
E-bost / Email: DylanJWilliams@anglesey.gov.uk
Ein Cyf / Our Ref:
Eich Cyf / Your Ref:

Ms. Kay Sully,
Caes Manager,
National Infrastructure Planning
The Planning Inspectorate,
Temple Quay House
2 The Square
Bristol,
BS1 6PN

Dyddiad / Date: 12/10/18

Dear Ms Sully,

EN010007

**Planning Act 2008 (as amended) – Section 88 and the Infrastructure Planning
(Examination Procedure) Rules 2010 (as amended)**

Application by Horizon Nuclear Power for an Order Granting Development Consent for the
Wylfa Newydd Nuclear Power Station

**NOTIFICATION OF ATTENDANCE AND INTENTION TO PARTICIPATE AT THE
PRELIMINARY HEARING AND MEETINGS.**

In response to the rule 6 letter dated 25 September 2018, the Isle of Anglesey County Council
hereby advises that the Council wishes to attend and participate in:

- The Preliminary Meeting on 23 October 2018; and
- The Issue Specific Hearing on the draft Development Consent Order on 24 October 2018.

The IACC also advises that it will be in attendance at the open floor hearing on 25 October 2018 but would not intend to speak unless there is a query which we can usefully address to assist the Examining Authority.

1 PRELIMINARY MEETING ON 23 OCTOBER 2018

The IACC will be represented at the Preliminary meeting by Martin Kingston QC. Mr Kingston will be accompanied by Dr Gwynne Jones, the Council's Chief Executive; Mr Dylan Williams, the Council's Head of Regulation and Economic Development; and our legal advisors from Burges Salmon LLP. Other IACC officers will be in attendance to observe.

The IACC wishes to participate in all agenda items for the preliminary meeting and in particular to raise the following key points;

1.1 Initial Assessment of Principal Issues (Item 4)

(a) North Anglesey

The IACC considers that all of the principal issues highlighted in the rule 6 Letter will have greatest impact in close proximity to the site. The IACC has adopted a Proximity Principle in dealing with the DCO; that principle requires a sequential approach with consideration given first to the impacts on neighbouring communities. The IACC also recognises the importance of considering impacts on North Anglesey in its Wylfa Newydd Supplementary Planning Guidance (May 2018), which sets out 'Key Development Principles' for this locality as the area experiencing greatest impacts. IACC is of the view that time needs to be allowed for separate and careful consideration of impacts on, and issues which are of greatest concern to, North Anglesey and its communities.

(b) Socio-economics

While the IACC welcomes the inclusion of the socio-economic topic as a principal issue, the Council is concerned that this grouping contains many of the most important issues raised by the application, including those likely to have far-reaching and long lasting impacts on the communities of Anglesey. The IACC considers that each of the points noted under this issue are key issues and notes that it intends to make substantial submissions on each of these. The IACC wishes to highlight at this stage that it considers each of the socio-economic topics to be an important issue and that this topic as a whole will therefore require considerably more time than many of the other identified principal issues.

(c) Legacy

In preparing to host a series of potential major projects, the IACC has recognised that its communities will experience both positive and negative impacts for a number of years. To reflect its commitment to responsible and proactive community leadership, the IACC expects all major projects to deliver a positive legacy for Anglesey with the development, construction and operation of these major projects contributing to the long-term well-being of the Island and its communities; to this end, IACC has adopted a Legacy Framework. The IACC's support for the Wylfa Newydd development is predicated upon the project delivering a positive long-term legacy benefit for the Island. In the view of the IACC, this is fundamental to the acceptability or otherwise of the development. IACC accordingly considers that the legacy of the project should be treated as a principal issue in its own right.

(d) Cumulative impacts

The principal issues for consideration at the Examination, as set out in the rule 6 Letter, are subdivided into single topic headings. The rule 6 letter recognises that there will be overlap. Clearly, there will be wide ranging cumulative impacts, both direct and indirect, from the interactions between the themes and the issues highlighted. There will also be cumulative impacts with other projects, most notably the National Grid DCO application for the North Wales Connection. The Council is currently unclear where these cumulative issues are being considered and requests that the cumulative impacts of the Wylfa Newydd project, both between the separate topics and with other projects, are added as a principal issue.

1.2 Draft timetable for examination of the application: Written submissions. (Item 5)

The applicant has set out in the submitted mitigation route map that a section 106 planning obligation agreement will be required. The applicant and IACC have been in discussion for some time regarding the heads of terms for such an agreement. As host local planning authority for the development, the IACC is legally responsible for agreeing and signing the Section 106 Agreement. It will also be responsible for the subsequent monitoring and enforcement of its provisions as well as for DCO requirements.

PINS Advice Note 2 (The role of Local Authorities in the Development Consent Process), indicates that “a main aspect of a local authority’s input at the examination is likely to be focused on ensuring that the draft DCO provisions/requirements and any s106 agreement are deliverable and consistent”. The timetable issued in the Rule 6 letter does not currently include any deadlines for section 106 submissions. The IACC requests that deadlines for the progression and completion of a section 106 agreement are added to the timetable.

1.3 Draft timetable for examination of the application (Item 6)

(a) January hearing dates

The IACC is concerned that the scheduling of hearing days for the second week of January does not allow for the inevitable disruption over the Christmas and New Year period. The festive period will negatively impact on the ability of the Council to prepare fully for the first scheduled set of hearings in January and the Council would request that these are moved to later in January. Should the Examining Authority determine that these hearings must remain as scheduled, the IACC requests that the topics for these hearings be agreed at the preliminary meeting and that the early issue of agendas for these days is considered.

(b) Number of hearing days

The IACC is concerned that the limited number of days identified for hearings in the draft Examination timetable will be insufficient. Whilst accepting that a DCO Examination is primarily a written process, ten days is a very limited amount of time to properly consider principal issues, the legal drafting of the Order, Compulsory Acquisition issues as well as undertaking Accompanied Site Inspections for a project of this scale.

This matter is particularly acute given that the socio economics issue contains a substantial range of issues which are of considerable importance to IACC. The IACC would welcome the opportunity to discuss how Hearing time will be apportioned relative to themes and principal issues identified. The IACC considers that sufficient time, must be allowed to enable proper consideration of issues which are of greatest concern to the locality and that further hearing days should be identified to allow for this.

(c) Order of ASI’s and hearings

The IACC consider that site visits will be vital for the Examining Authority to fully understand the context of the proposals and would request that the Examining Authority consider scheduling ASI’s as early in the process as practicable. While the Council recognises that weather conditions in January may not be ideal, it suggests that holding site visits prior to the issue specific hearings scheduled for January and March would increase the value of the hearing sessions and these visits should therefore be set for the earliest opportunity.

1.4 Other matters (Item 9)

(a) Bilingual participation

IACC is a bilingual Council and intends to participate in the Examination in Welsh and English so far as is possible. The Council understands and welcome the efforts made to enable public participation in Welsh in hearings. The Council is however concerned that bilingual participation has not been fully allowed for in the timetable and that, in particular, time has not been allowed for the translation of key submissions to enable and support bilingual participation.


2 ISSUE SPECIFIC HEARING

The IACC will be legally represented at the Issue Specific Hearing on the draft Development Consent Order on 24 October 2018. There are fundamental disagreements with HNP on the drafting of the DCO in relation to the monitoring of impacts and the delivery of any mitigation measures. These disagreements, which have already been aired with HNP, raise legal issues of some complexity which if not resolved to IACC's satisfaction are likely to lead to major problems in the future. The IACC would intend to bring a team of two legal representatives and two officers. The IACC intends to finalise the identity of these attendees once it has reviewed the detailed agenda for this hearing.

3 OPEN FLOOR HEARING

The IACC will be in attendance at the Open Floor Hearing on 25 October 2018 but does not intend to speak. The IACC will be represented by a legal representative and officer in order to address any queries where the Council may be able to assist the Panel but is not requesting an opportunity to make any submission on that occasion.

Yours sincerely,



Dylan J. Williams

**Pennaeth Gwasanaeth – Rheoleiddio a Datblygu Economaidd
Head of Service – Regulation and Economic Development**